Newydd da i Flaenau Ffestiniog

Sicrhawyd dyfodol Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bowydd and Rhiw am y tair blynedd nesaf gan gyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe fydd y cyllid blynyddol o oddeutu £150,000 yn caniatáu i'r Bartneriaeth barhau â'r gwaith sy'n anelu i wella bywyd trigolion ward Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog a'r ardal gyfagos.

Caiff yr arian a glustnodwyd ei ddefnyddio i ddatblygu tri o'r prosiectau a ddaw o dan ymbarél Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw yn ogystal â chaniatáu'r tîm staff craidd i barhau i ddatblygu prosiectau o'r newydd.

Mae prosiect y Dref Werdd yn gweithio i gefnogi pobl Bro Ffestiniog i wneud y mwyaf o'u hamgylchedd trwy nifer o brosiectau amrywiol gan gynnwys diwrnodau gweithredu a glanhau cymunedol, grŵp masnach deg y dref, sefydlu cymdeithas randiroedd a grŵp ynni lleol i edrych ar faterion yn ymwneud ag ynni cynaliadwy.

Yn ogystal â gweithio tuag at greu pedwar trac beicio mynydd yn yr ardal, mae'r ail brosiect, Antur Stiniog yn gweithio'n ddygn tuag at hyfforddi pobl leol i fedru manteisio ar y sector awyr agored. Bwriad y trydydd prosiect, Blaenau Pam? yw cefnogi'r celfyddydau yn y dref ac ar hyn o bryd ariennir grŵp theatr o fewn Ysgol y Moelwyn.

Dywed Catrin Euros, Cadeirydd Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bowydd and Rhiw: "Rwy'n eithriadol falch o weld y bydd gwaith gwych y Bartneriaeth a'i phrosiectau yn parhau am y tair blynedd sydd i ddod. Y mae teimlad cynyddol yn y dref ein bod ar drothwy cyfnod cyffroes yn ei hanes. Y mae sicrhau'r cyllid yma yn mynd a ni gam yn nes at wella pethau o fewn Blaenau Ffestiniog ar gyfer pobl Blaenau Ffestiniog."

Am wybodaeth bellach ar waith Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw cysylltwch â Mair Huws neu Ceri Cunnington ar 01766 832214 neu MairHuws@gwynedd.gov.uk